# DINAS A SIR ABERTAWE

## COFNODION CYFARFOD ARBENNIG PWYLLGOR CYNGHORI'R CABINET AR GYMUNEDAU A GYNHALIWYD YN YSTAFELL BWYLLGOR 5, NEUADD Y DDINAS, ABERTAWE DDYDD IAU, 12 MAI 2016 AM 2.00 PM

**YN BRESENNOL:** Bu'r cynghorydd R A Clay (Cadeirydd) yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
| --- | --- |
| U C Clay | T J Hennegan |

**Swyddog(ion)**

| | |
| --- | --- |
| M Nicholls | Cyfarwyddwr Lleoedd Dros Dro |
| S Woon | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |
| T Shaw | Rheolwr Ynni |

**Hefyd yn bresennol:**
Y Cynghorydd A S Lewis (Aelod y Cabinet dros Wasanaethau'r Genhedlaeth Nesaf)
Y Cynghorydd P M Meara
Keith Ross, Frack Free Wales

71 **YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB.**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr J E Burtonshaw, D W Cole ac N J Davies.

72 **DATGELIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL A RHAGFARNOL.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd buddiannau.

73 **STRATEGAETH YNNI.**

Roedd Martin Nicholls, Cyfarwyddwr Lleoedd Dros Dro, wedi cyflwyno Strategaeth Ynni Dinas a Sir Abertawe gyda chymorth Terri Shaw, Rheolwr Ynni.

Roedd y cyflwyniad yn cynnwys:

- Pam y mae angen Strategaeth Ynni?
- Pam cael Strategaeth Ynni?
- Pam roi Strategaeth Ynni ar yr agenda heddiw?
- Gweledigaeth a Blaenoriaethau Corfforaethol
- Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol - Cyfrifoldebau'r Sector Cyhoeddus
- Amcanion y Strategaeth Ynni
- Hierarchaeth Ynni
- Elfennau Allweddol y Strategaeth

- Beth ydym eisoes yn ei wneud ar bob lefel o'r hierarchaeth?
- Beth yw'r cam nesaf?
- O ba lefel ydym yn dechrau symud ymlaen i lefel dyfodol yr hierarchaeth?
- Heriau wrth gyflwyno'r Strategaeth Ynni
- Cwestiynau cychwynnol i Aelodau'r Cabinet
- Mewnbwn Pwyllgor Cynghori'r Cabinet
- Myfyrdodau Terfynol

Nododd y Cyfarwyddwr Lleoedd Dros Dro fod y cynigion yn ffurfio strategaeth yn hytrach na pholisi, ac yn cynnwys cynllun gweithredu nad oedd yn gyflawn. Er bod elfennau sy'n cael eu cyflawni ar hyn o bryd (Safon Ansawdd Tai Cymru) roedd rhai elfennau'n fwy anodd eu cyflawni gan eu bod yn gofyn am fewnbwn gan sefydliadau eraill. Felly, byddai'r strategaeth yn cael ei thrin ar sail dameidiog yn hytrach na chael ei hystyried yn ei chyfanrwydd.

Meddai Aelod y Cabinet dros Wasanaethau'r Genhedlaeth Nesaf fod cerrig milltir mewn rhai ardaloedd a oedd yn benodol iawn, e.e. y gofyniad i atal defnyddio safleoedd tirlenwi ar ôl 2020. Yn ychwanegol, gwnaed ymrwymiad gan yr Awdurdod i beidio â defnyddio unrhyw danwyddau ffosil erbyn 2025.

Meddai fod meysydd megis biomas yn haeddu archwiliad pellach, ac awgrymodd y dylai grŵp tasg a gorffen cael ei gynnull er mwyn archwilio'r mater hwn.

Roedd materion allweddol a gododd o'r trafodaethau'n cynnwys:

- Y materion sy'n gysylltiedig â phenderfyniad y Pwyllgor Cynllunio i wrthod cais blaenorol am waith Biomas yn Abertawe.
- Manteision archwilio strategaethau 'gwyrdd' a chwmnïau ynni cynghorau eraill;
- Pwysigrwydd cwblhau adrannau o'r cynllun gweithredu yn hytrach na cheisio cwblhau'r holl agweddau gyda'i gilydd;
- Y cysylltiad rhwng y Strategaeth a Chynlluniau Gweithredu yn y Gymuned Cynghorwyr;
- Manteision defnyddio grwpiau tasg a gorffen i archwilio ffermydd gwynt;
- Gan fod y Strategaeth yn drawsbynciol, byddai'n rhaid i bwyllgorau cynghori'r cabinet eraill archwilio meysydd sy'n benodol i'w portffolios;
- Roedd mewnbwn gan aelodau ynglŷn â llunio'r strategaeth yn hanfodol, ac roedd yn bwysig bod yr holl faterion yn cael eu harchwilio, er ar sail dros dro (megis biomas y mae ei ddisgwyliad oes yn 20-25 mlynedd). Roedd materion eraill yn cynnwys Solar, Morlyn Llanw a Storio;
- Rôl y Swyddogion Cynllunio wrth ddatblygu'r CDLl, a fyddai'n cefnogi'r strategaeth;
- Sicrhau nad oedd y strategaeth yn dod yn wleidyddol ac yn cael ei datblygu gyda chefnogaeth trawsbleidiol;
- Roedd angen datblygu'r fenter 'tyfu eich bwyd eich hun' yn fwy, a'i chysylltu â strategaethau eraill o fewn yr awdurdod;
- Roedd materion a nodwyd yn rhai â 'blaenoriaeth isel' o fewn y cynllun gweithredu yn aml yn faterion mwy heriol i'w cyflwyno yn hytrach na'n faterion dibwys;

- Roedd angen mwy o drafodaethau gyda'r Association of British Ports ynglŷn â'r tir o amgylch o dociau;
- Y rhwystredigaethau sy'n gysylltiedig â dinas-ranbarthau a'r angen i ymdrin â materion mewn perthynas â chanol y ddinas; ac
- Archwilio'r amserlen am drafodaethau gyda Llywodraeth Cymru a sut caiff hyn ei fwydo i'r strategaeth.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Swyddogion am eu cyflwyniad addysgiadol.

**PENDERFYNWYD** ar y canlynol**:**

a) Dylid sefydlu Grwpiau Tasg a Gorffen i archwilio biomas, ffermydd gwynt, cwmnïau ynni, mesuryddion trydan deallus a storio;
b) Bod aelodaeth y grwpiau tas a gorffen yn cynnwys Aelod y Cabinet dros Wasanaethau'r Genhedlaeth Nesaf, Cadeirydd Pwyllgor Cynghori'r Cabinet ar Gymunedau, Aelodau a Swyddogion perthnasol;
c) Bydd y Cyfarwyddwr Lleoedd Dros Dro'n cylchlythyru manylion cwmnïau ynni i Aelodau'r Pwyllgor;
d) Bydd y Cyfarwyddwr Lleoedd Dros Dro'n gwneud unrhyw gysylltiadau perthnasol â Phwyllgorau Cynghori'r Cabinet ar Gymunedau eraill, gan adrodd yn ôl i'r Pwyllgor;
e) Bydd y Cyfarwyddwr Lleoedd Dros Dro'n ailddiffinio'r cynllun gweithredu o ran materion y'u hystyriwyd yn rhai 'blaenoriaeth isel'; ac
f) Y dylid cofnodi'r cyflwyniad.

Daeth y cyfarfod i ben am 3.07 pm

**CADEIRYDD**